**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 29/6/22**

**Yn bresennol**

Vikki Howells AS, Cadeirydd
Luke Fletcher AS, Is-gadeirydd
Peredur Owen Griffiths AS
Huw Irranca-Davies AS
Daniel Roberts
Derek Walker
Mike Erskine
Magi Mattinson
Alaistar Cope
Amy Jenkins
Andrew Davies
Claire White
Donna Coyle
Gethin Rhys
Hayley Wheeler
Jackie Dorrian
John Chown
Lisa Marie Banks
Paula Lunnon
Robin Lewis
Ryland Doyle
Tim Newton
Yasmin Zahra

Agorodd Derek Walker y cyfarfod, gan weithredu fel Cadeirydd dros dro wrth i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol gael ei gynnal. Cynigiwyd Vikki Howells AS fel Cadeirydd ac eiliwyd hyn gan Luke Fletcher AS, felly ail-etholwyd Vikki i'r rôl. Diolchodd Vikki i bawb a chymerodd yr awenau fel Cadeirydd y cyfarfod. Yna cynigiodd Vikki Luke Fletcher AS fel Is-gadeirydd y grŵp, a eiliwyd gan Peredur Owen Griffiths AS, ac etholwyd Luke. Yna cynigiodd Luke i Daniel Roberts o Gwmpas fod yn Ysgrifennydd y Grŵp, a eiliwyd gan Peredur, ac etholwyd Daniel. Yna cadarnhawyd aelodaeth y Grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf, a chadarnhawyd yr Adroddiad Blynyddol a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

Yna dechreuodd Vikki brif ran y cyfarfod, a oedd yn ymwneud â chwmnïau cydweithredol a gwerthoedd cydweithredol yn y sector gofal cymdeithasol. Trafododd Vikki bwysigrwydd y sector hwn a chyfeiriodd yn benodol at yr heriau demograffig y mae'n eu hwynebu – yn enwedig gan fod data'r cyfrifiad a ryddhawyd yn ddiweddar yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru – a gofynnodd sut mae'r sector gofal cymdeithasol ymateb i hyn.

Y siaradwr gwadd cyntaf oedd Geraint Jenkins o Gydweithfa Cartrefi Cymru, elusen ofal a drawsnewidiodd yn fenter gydweithredol aml-randdeiliad gyda dros 600 o aelodau. Trafododd Geraint y rhesymau dros y newid, gan gynnwys i sicrhau bod gan y bobl y maent yn eu cefnogi lais, yn hytrach na'u bod yn cael gofal mewn modd goddefol, ac fel y gallai'r gweithlu gael llais a pheidio â bod yn cyflawni rolau dan gontract o fewn hierarchaeth. Yn ogystal â hyn, roeddent am gynnwys teuluoedd, ffrindiau a chefnogaeth i fod yn rhan o'r broses er mwyn cynyddu adnoddau a chysylltiadau o fewn y gymuned. Dywedodd Geraint fod gwerthoedd cydweithredu yn gwneud

synnwyr ar gyfer gofal cymdeithasol ac y byddai gwasanaethau'n fwy cynaliadwy os ydym yn galluogi pawb i gyfrannu.

Eglurodd Geraint fod cynnydd sylweddol wedi bod hyd yn hyn, gyda chefnogaeth ar lefel uwch, aelodaeth sy'n cynyddu, a phobl wedi'u hysbrydoli i feddwl a gweithredu fel cymuned a democratiaeth. Bu gwerthuso cyfranogol a defnyddiwyd gwerthoedd cydweithredol i lunio eu gwaith. Wrth gwrs, bu heriau hefyd. Roedd COVID-19 yn golygu bod llai o gyfleoedd i ymgysylltu ac adeiladu cymuned, mwy o alw ar wasanaethau, llai o gapasiti oherwydd salwch, a mwy o orbryder. At hynny, mae heriau ar draws y sector o ran recriwtio a staffio wedi golygu dirlawnder yn y farchnad a blinder yn y gweithlu. Fodd bynnag, mae optimistiaeth wrth edrych at y dyfodol. Maent yn adeiladu fforymau cydweithredol, yn ymgorffori gweithgareddau cydweithredol mewn gwaith prif ffrwd, yn ailgysylltu â chymunedau ac yn adeiladu ar y daith ddigidol y maent wedi bod arni. Maent yn creu mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael hwyl gyda'i gilydd.

Y siaradwr nesaf oedd Meilys Smith o Gyngor Gwynedd. Soniodd Meilys am ei gyrfa a'i rôl o fewn yr Awdurdod Lleol, a'i bod bellach yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol. Dywedodd eu bod wedi sylweddoli eu bod am wella eu harferion a'u perthynas â'r farchnad, a'u bod wedi dechrau edrych yn wahanol ar ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Trafododd eu profiad o ddefnyddio dull Vanguard, gan edrych i ble roedd eu harian yn mynd ac ar beth roedd yn cael ei wario. Dywedodd Meilys fod hwn wedi bod yn ysgytiad garw, a'u bod am wneud pethau'n wahanol. Roeddent am edrych o safbwynt y dinesydd a'r effaith yr oedd penderfyniadau'n eu cael ar lesiant. Canfuwyd bod cydweithio a chymryd y persbectif dynol hwn, gan ddefnyddio rhwydweithiau o aelodau teulu, ffrindiau a chymuned wedi cael effaith hynod gadarnhaol. Dywedodd Meilys fod hyn wedi digwydd drwy weithio gyda Chydweithfa Cartrefi Cymru, ond nad oedd y sefydliadau hyn yn bodoli ym mhobman, felly sut y gellid creu'r amgylchedd hwn mewn marchnad gymysg?

Yna trafododd Meilys y gwaith roeddent wedi'i wneud i dreialu'r gwerthoedd a'r modelau hyn yn y sector cymysg, gan ofyn beth all cymuned ei wneud i helpu. Buont yn cynnal cynlluniau peilot gyda rhannau eraill o'r farchnad gan gynnwys busnesau preifat yng Nghaernarfon, Nefyn a Thywyn. Gwnaethant ddysgu bod ymreolaeth ac ymddiried yn staff i wneud penderfyniadau yn arwain at ganlyniadau gwell, ac bod canlyniadau a gyflawnir mewn strwythurau cydweithredol a rhai a arweinir gan y gymuned yn gallu cael eu hefelychu yn y sector preifat er elw os caiff y gwerthoedd a'r modelau cywir eu hintegreiddio, ac os defnyddir rhwydweithiau lleol i greu gwerth ychwanegol. Canfuwyd, drwy fuddsoddi'n lleol, y gall yr un lefel o staffio arwain at fwy o ofal a gofal gwell. Dywedodd Meilys mai'r straeon dynol oedd yn ei wneud yn werth chweil, gydag unigolion yn y gymuned yn cael mwy o ofal a gwell gofal o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Maent yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau fod yn rhan o dîm adnoddau cymunedol, sy'n fenter cydweithredol ar draws sectorau a sefydliadau, ar fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol. Mae hi'n dweud y gall sefydliadau preifat gyflawni'r canlyniadau hyn o hyd ond bod angen y llwyfan a'r gefnogaeth arnynt i allu gwneud hynny. Nawr yn y broses dendro maent yn gofyn cwestiynau pwysig am eu dealltwriaeth o'r gymuned leol a'u rhwydweithiau yn y gymuned leol, er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol. Yn araf deg a fesul tipyn, maent yn ail-lunio'r farchnad.

Y siaradwr olaf oedd Hugh Irwin o Drive Wales, a ddywedodd fod eu profiad yn debyg i stori Cydweithfa Cartrefi Cymru. Trafododd eu stori a'u twf i 660 o bobl, a'r heriau y maent wedi'u hwynebu drwy COVID-19, y llifogydd yn ne Cymru, a heriau eraill. Trafododd Hugh y profiad a gawsant drwy drefniadau comisiynu traddodiadol, gan ddweud bod y sefyllfa bresennol yn annog pobl i beidio â chydweithio, yn cymryd llawer o amser ac yn creu ansicrwydd, yn rhy ragnodol, ac yn cymryd bod yr arbenigedd ar y lefelau uchaf. Ychwanegodd fod obsesiwn â chanlyniadau yn unig, ac

nid egwyddorion a gwerthoedd. Ychwanegodd fod mabwysiadu dull newydd yn dod â chyfleoedd i ddechrau o'r newydd, cyd-gynhyrchu, dull hyblyg a deinamig sy'n canolbwyntio ar lesiant, canlyniadau dynol, a'i fod yn ataliol. Dywedodd ei fod yn aml yn cael ei syfrdanu gan ba mor wybodus ac arloesol yw gweithwyr a phartneriaid ar draws y sector.

Yn dilyn y cyflwyniadau cafwyd sesiwn holi ac ateb, gyda thrafodaeth ar y potensial sydd gan wirfoddoli, meithrin perthnasau, a manteision dull cydweithredol o ymgysylltu â chymunedau a staff. Cafwyd trafodaeth hefyd am bwysigrwydd a phroses newid diwylliant mewnol, sy'n gallu bod yn heriol ond sy'n bosibl drwy ymddiried mewn pobl a buddsoddi ynddynt. Trafododd Meilys bwysigrwydd datblygu arweinyddiaeth, mentora a chefnogaeth, a mabwysiadu agwedd hirdymor. Nododd Meilys hefyd fod cysylltiad uniongyrchol rhwng cymhwyso'r model yng Ngwynedd a rhestrau aros, gan ddangos ei fanteision. Gofynnodd Derek o Cwmpas beth yw'r un peth y dylem ei wneud i gefnogi hyn ledled Cymru, er mwyn bod yn drawsnewidiol. Dywedodd Meilys ei fod yn ymwneud â newid diwylliant a meddylfryd, gan ddefnyddio dull Vanguard. Nododd Hugh fod comisiynwyr eisiau gwneud y peth iawn a bod angen eu cefnogi, nid eu cyfyngu gan ddulliau traddodiadol. Mae eisiau lle diogel ar gyfer deialog, gan helpu i gael y bobl iawn yn rhan o'r drafodaeth, a rhannu risgiau a chyfleoedd. Canolbwyntiodd Geraint ar ddatblygu'r gweithlu, talu cyflogau teg a pharch cydradd â gweithwyr y GIG. Yn olaf, cafwyd trafodaeth ar y canllawiau a sut y gellir eu gwneud yn briodol i wahanol gyd-destunau ledled Cymru. Roedd pwysigrwydd creu rhwydwaith o bobl gefnogol yn hanfodol, ac roedd amrywiaeth yn her ond roedd cydnabod y gwahaniaeth hwn yn hollbwysig, a'r pwysigrwydd yw cysondeb mewn gwerthoedd a syniadau.

Diolchodd Vikki i bawb am fod yn bresennol ac am gyfrannu at y cyfarfod, a daeth y sesiwn i ben.